Llais Defnyddwyr Cymru
Cyngor Newydd Defnyddwyr Cymru
Consumer Focus Wales
The new Consumer Council for Wales

Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif. 5
Swyddfa Deddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

20 Mawrth 2009

Annwyl Syr/Madam,

**Ymateb Llais Defnyddwyr Cymru i'r Ymgynghoriad ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009**

Diolch am roi cyfle i ni ymateb i'r ymgynghoriad ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009. Fel y dywed cyhoeddiad Cyngor Defnyddwyr Cymru yn 1996, mae'r iaith yn fater defnyddwyr a bu llais y defnyddwyr ar goll o'r drafodaeth am amser maith.[1]

Yn unol ag egwyddorion Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac yn wir ein hegwyddorion ein hunain o wasanaethau cyhoeddus sy'n canoli ar y dinesydd, credwn yn gryf y dylai'r defnyddiwr fod wrth galon y gwasanaeth.[2] Mae hyn yn golygu llunio deddfwriaeth o safbwynt defnyddwyr yn seiliedig ar anghenion a phrofiadau dinasyddion. Cefnogwn y cysyniad mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd yn y lle gorau i ddeddfu ar fater yr iaith Gymraeg ac yn y lle gorau i adlewyrchu anghenion defnyddwyr Cymru.

Fodd bynnag, teimlwn fod angen mwy o ymchwil i benderfynu'r hyn mae defnyddwyr ei eisiau a'i angen yng nghyswllt darpariaeth yn y Gymraeg fel y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wirioneddol gyflawni ar yr egwyddorion hyn.

Er mwyn gwneud hyn, mae angen ymgynghori ymhellach gyda defnyddwyr gwasanaeth ar ba wasanaethau y dylid eu cynnwys o fewn y Mater, yn ogystal ag i ba raddau y dylai darpariaeth yn y Gymraeg fod ar gael ar gyfer y sectorau neu wasanaethau hynny. Ar hyn o bryd nid ydym yn teimlo'n hyderus fod y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o "wasanaethau allweddol'[3] a hoffem weld mwy o waith yn cael ei wneud gyda defnyddwyr ar yr hyn y teimlant sy'n wasanaeth allweddol sy'n wynebu'r cyhoedd. Medrai hyn gynnwys, er enghraifft, y banciau, archfarchnadoedd neu drafnidiaeth gyhoeddus. Nid dweud ydym y dylai fod deddfwriaeth yn yr holl feysydd hyn, dim ond y dylid gofyn i ddefnyddwyr am bob agwedd o'u bywydau beunyddiol.

Byddem hefyd yn hoffi sicrwydd fod lefel y gwasanaethau Cymraeg o fewn y sectorau a nodir yn y Mater yn gymesur. Mae angen cydbwyso darpariaeth gydag anghenion a blaenoriaethau defnyddwyr. Hoffem

[1] 'Y Gymraeg fel Mater Defnyddwyr' Cyngor Defnyddwyr Cymru (1996)
[2] 'Rhoi'r Dinesydd ar Ganol y Llwyfan' Cyngor Defnyddwyr Cymru (2006)

3rd Floor, Capital Tower
Greyfriars Road
Cardiff CF10 3AG

3ydd Llawr, Twr y Brifddinas
Greyfriars Road
Caerdydd CF10 3AG

t 02920 787 100
f 02920 787 101
e contactwales@consumerfocus-wales.org.uk
www.consumerfocus-wales.org.uk

eich annog i sicrhau nad yw siaradwyr Cymraeg dan anfantais oherwydd nad yw sector neu sectorau neilltuol wedi eu cynnwys yn y Mater.

Mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig yn rhoi cyfle i Gymru ddeddfu ar yr iaith Gymraeg mewn ffordd sy'n wirioneddol ymatebol i anghenion pobl Cymru. Hyd yma mae deddfwriaeth wedi cymryd ymagwedd o'r brig i lawr, gan edrych ar yr hyn sydd fwyaf cyfleus i ddarparwyr yn hytrach na'r hyn sy'n hanfodol i ddefnyddwyr. Yr her yn awr yw sicrhau fod y darpariaethau a wneir dan y Mater yn adlewyrchiad gwirioneddol o'r hyn mae defnyddwyr ei eisiau.

Yr eiddoch yn gywir



Vivienne Sugar
Cadeirydd Llais Defnyddwyr Cymru

3rd Floor, Capital Tower
Greyfriars Road
Cardiff CF10 3AG

3ydd Llawr, Twr y Brifddinas
Greyfriars Road
Caerdydd CF10 3AG

t 02920 787 100
f 02920 787 101
e contactwales@consumerfocus-wales.org.uk
www.consumerfocus-wales.org.uk